Saesneg isod/English below

CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN

**Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun 26ain Ionawr 2026 am 7.30yh yn y Neuadd, Llanegryn.**
Presennol; Cyng. Alwyn Roberts, William T Davies, Eurgain Haf Davies, Rhys Williams, Lona Harris, WRP Jones, Shan Jones, Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) ynghyd a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Alwyn Roberts.

Roedd croeso arbennig i'r Cyng Shan Jones oedd yn mynychu am y tro cyntaf fel Cynghorydd. Nid oedd unrhyw **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 18fed o Dachwedd** ar gynnig Cyng Lona Harris a'i eilio gan Cyng Eurgain Davies.
4. **Materion yn codi.**

a) **Materion Priffyrdd** – Nodwyd ymatebion i'r ymholiadau ers tro dwethaf, a gwaith oedd ar y gweill yn yr ardal. Yng nghyswllt y cwynion am yr oedi a'r costau gyda sgaffaldiau ar Westy Corbett yn Tywyn, gwelwyd fod angen ysgrifennu eto i nodi pa mor warthus oedd yr holl wariant yno, a bod angen gwybod amserlen bendant. Fe nodwyd fodd bynnag fod rhaid i Gyngor Gwynedd sicrhau fod y safle yn ddiogel.

b) **Cronfa Ffyniant Gyffredin - 'Gwynedd Ni'** - adroddwyd y diweddaraf. Roedd y cyfan o'r gwaith wedi ei gwbwlhau, a'r ffurflen cwbwlhau prosiect wedi ei llenwi, a'i dosbarthu i'r Cynghorwyr er gwybodaeth. Roedd datganiad yn Dail Dysynni wedi ei baratoi, a sticeri cydnabod y grant yn cael eu rhoi ar y toiledau.

Os byddai cyfnod ymgeisio eto, ymysg y syniadau oedd cael Bwrdd Gwybodaeth newydd, cael arwydd newydd yn Cefn Coch, gwybodaeth ar 'viewpoint' mewn lle addas, cael hanes y pentref ayyb

c) **Cynllun trafnidiaeth cymunedol** – adroddwyd y diweddaraf am y prosiect yma, a'r cyfarfod yn Tywyn ar y 19eg o Ionawr.

d) **Parcio tu allan yn Neuadd yn Llanegryn** – nid oedd ymateb pellach gan Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd. Gofynnwyd a oedd modd cael dogfennau gwreiddiol y Neuadd, ac addawodd Cyng Eurgain Davies gael gair gyda'r Ymddiriedolwyr.

e) **Gardd Goffa** – nodwyd y diweddaraf gyda'r cais i roi plac. Byddai y Clerc yn adrodd y tro nesaf ar ol cael cyfarfod. Nodwyd hefyd y byddai rhaid trefnu cyfarfod ar y safle. Nodwyd hefyd fod gwybodaeth am yr Ardd Goffa bellach ar y wefan.

Nodwyd drefniadau i dorri y gwair yno, a bod angen i griw o'r Cyngor Cymuned gyfarfod ar y safle i dacluso.

5. **Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw faterion**.**

6. **Materion Cyllid.**

a) **Cyfrifon 2024-25** - nid oedd unrhyw ymateb i law gan yr Archwilydd Allanol.

Cadarnhwyd balansau'r banc ar 26.01.26, sef Cyfri Cyfredol £6697.31 a Cyfrif Business Manager £4545.73.

b) **Anfonebau i'w talu**.

Ar gynnig Cyng Lona Harries a'i eilio gan Cyng Rhys Williams cytunwyd ar y canlynol;

- HG Web Designs – hostio a diweddaru y wefan - £362.50
- Cyflog Clerc £400.01 a HMRC - £100
- Jones & Jones – anfoneb cynnal a chadw llwybrau yn flynyddol, a darparu 2 goeden Nadolig - £732.00

c) **Ceisiadau am arian**

- Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn - £150
- Marie Curie – penderfynwyd peidio cyfrannu.

7. **Gohebiaeth.**

a) Nodwyd dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru, a'r cynllun hyfforddiant. Addawodd Cyng Lona Harris wneud un cwrs, a diolchwyd iddi.

**b)** Nodwyd grantiau 'Perthyn' ar gyfer grwpiau cymunedol 2026 – roedd y gwybodaeth wedi ei ddanfon allan i bawb

c) Nodwyd er gwybodaeth ddigwyddiad ar gyfer *Cyn Filwyr* gan Liz Saville Roberts AS yn Caernarfon 7.02.26

d) Problemau baw cwn – nodwyd ohebiaeth am y cwynion. Roedd y Warden wedi ymweld, ac roedd Cyng Beth Lawton wedi cael arwyddion, a diolchwyd am hyn.

8. **Unrhyw fater arall.**

- Roedd pryder yn parhau am gyflwr y ffordd ger mynydd Castell. Rhoddwyd map i ddangos yr union safle, a bydai'r Clerc yn ymdrin a hyn.
- Roedd e-bost i law gan Stella Eldridge yng nghyswllt coed ar dir Ysgol Craig yr Aderyn, a oedd yn cysgodi dros ei heiddo. Roedd yn fodlon cyfarfod y gost o roi sylw i'r broblem. Gwelwyd mai mater i'r Ysgol oedd hyn, a byddai'r Clerc yn danfon gair. Gwelwyd fod angen codi hyn hefyd mewn cyfarfod o'r Llywodraethwyr.
- Llongyfarchwyd a diolchwyd i Rhys Williams a chriw Jack Wilkes Memorial Tractor Run am godi swm anhygoel o dros £21,000 i achosion da.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y NEUADD LLANEGRYN NOS LUN 23ain Chwefror 2026 , 7.30y.h.**

**Minutes of the Council Meeting held on Monday evening, 26 January 2026 at 7.30pm at y Neuadd, Llanegryn**

**Present:** Cllr Alwyn Roberts, William T Davies, Eurgain Haf Davies, Rhys Williams, Lona Harris, WRP Jones, Shan Jones, Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council), together with Huw T Jones (Clerk)

---

## 1. Welcome

A warm welcome was extended to everyone by the Chair, Alwyn Roberts.
A special welcome was given to Cllr Shan Jones, who was attending for the first time as a Councillor.

There were no declarations of interest in relation to the items on the agenda.

## 2. Public Participation

It was noted that no requests had been received for presentations from members of the public on any agenda item.

## 3. Minutes

The minutes of the meeting held on 18 November were confirmed on the proposal of Cllr Lona Harris, seconded by Cllr Eurgain Davies.

## 4. Matters Arising

**a) Highways Matters**
Responses received since the last meeting and ongoing work in the area were noted.

In relation to complaints about delays and costs associated with scaffolding at the Corbett Hotel in Tywyn, it was agreed that a further letter should be sent to express how unacceptable the level of expenditure was and to request a definite timetable. It was noted, however, that Gwynedd Council must ensure the site is safe.

**b) Shared Prosperity Fund – 'Gwynedd Ni'**
The latest update was reported. All work had been completed, and the project completion form had been filled in and circulated to Councillors for information.

A statement had been prepared for *Dail Dysynni*, and grant acknowledgement stickers were being placed on the toilets.

If another application period becomes available, suggested ideas included:

- A new Information Board
- A new sign at Cefn Coch
- Information at a suitable viewpoint
- Information about the history of the village, etc.

**c) Community Transport Scheme**
An update was given on this project and on the meeting held in Tywyn on 19 January.

**d) Parking Outside the Hall, Llanegryn**
No further response had been received from the Environment Department of Gwynedd Council. It was asked whether the original Hall documents could be obtained, and Cllr Eurgain Davies agreed to speak with the Trustees.

**e) Memorial Garden**
An update was noted regarding the application to install a plaque. The Clerk would report at the next meeting following a meeting.

It was also noted that a site meeting would need to be arranged. Information about the Memorial Garden is now available on the website.

Arrangements for grass cutting were noted, and it was agreed that a group from the Community Council should meet on site to tidy the area.

---

## 5. Planning Matters

There were no matters to consider.

---

## 6. Financial Matters

**a) Accounts 2024–25**
No response had yet been received from the External Auditor.

Bank balances as of 26.01.26 were confirmed as:

- Current Account: £6,697.31
- Business Manager Account: £4,545.73

**b) Invoices for Payment**
On the proposal of Cllr Lona Harris, seconded by Cllr Rhys Williams, the following were agreed for payment:

- HG Web Designs – website hosting and updates – £362.50
- Clerk's Salary – £400.01 and HMRC – £100
- Jones & Jones – annual footpath maintenance and supply of 2 Christmas trees – £732.00

**c) Grant Applications**

- Llanegryn Chairing Eisteddfod – £150
- Marie Curie – it was decided not to contribute.

---

## 7. Correspondence

**a)** Dates for One Voice Wales training sessions and the training plan were noted. Cllr Lona Harris agreed to undertake one course and was thanked.

**b)** The 'Perthyn' grants for community groups 2026 were noted – information had been circulated to all.

**c)** For information: an event for War Veterans hosted by MP Liz Saville Roberts in Caernarfon on 7.02.26 was noted.

**d)** Dog fouling problems – correspondence regarding complaints was noted. The Warden had visited, and Cllr Beth Lawton had obtained signs, for which thanks were expressed.

---

## 8. Any Other Business

- Concern remains regarding the condition of the road near Castell mountain. A map was provided to show the exact location, and the Clerk will deal with the matter.
- An email had been received from Stella Eldridge regarding trees on land belonging to Craig yr Aderyn School which were overhanging her property. She was willing to meet the cost of addressing the issue. It was agreed that this is a matter for the School, and the Clerk would respond. It was also noted that this should be raised at a meeting of the Governors.
- Congratulations and thanks were extended to Rhys Williams and the Jack Wilkes Memorial Tractor Run team for raising an incredible sum of over £21,000 for good causes.

---

## DATE OF NEXT MEETING

Neuadd Llanegryn– Monday evening, 23 February 2026 at 7.30pm.